CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
COFNODION – CYFARFOD GORFFENNAF 2017

DYDDIAD	Nos Fercher, 26 Gorffennaf 2017
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Canolfan Llanwnda**

1.	**Croeso** **Elin Evans, Nerys Evans, Rhys Owen, Elwyn Jones, Jason Hunt,**
2.	**Ymddiheuriadau** **Tom Ellis, Gwilym Ll Williams, Gwilym V Thomas.** **Heb glywed gan Neal.** **Les – wedi colli 6 cyfarfod, ei gyfarfod diwethaf oedd mis Tachwedd. Cytunwyd i ymestyn ei sedd gan iddo fod yn colli oherwydd salwch. Byddwn yn adolygu eto ym mhob cyfarfod.**
3.	**Datgan Buddiant**
4.	**Cadarnhau cofnodion 21 Mehefin 2017 a materion yn codi** **MW – cynnig eu bod yn gywir, JH yn eilio.** **Prosiect Uwch Gwyrfai – diweddariad gan RO – Cymdeithas Porwyr wedi ei ddatblygu a caerdydd wedi eu gwahodd i wneud ceisiadau llawn. Parc yn eu helpu i sgwennu'r cais, lot i wneud a rheoli llystyfiant ar y mynydd. Fire bricks i'w rhoi ar y mynydd. Gwaith ar y comin, tacluso waliau, drainage a cerrig wyneb etc…creu cylchdeithiau crwn lleol heb fynd ar y lon. Bydd swyddog ar y prosiect wedi ei leoli yn Caer Gors 2 ddiwrnod yr wythnos, amgueddfa ar agor 1 diwrnod yr wythnos am 48 wythnos y flwyddyn. Swyddog yn rhedeg teithiau i ysgolion etc…gwaith tynnu conifer a Rhodedendron uchwben Alltwen. Cattle grids, porwyr eisiau gorffen y rhai rownd y mynydd i gadw defaid yno. Rhan ohono ydy ymestyn llwybr Bryngwyn, comisiynu feasibility study i weld beth ydy'r cyfleon a gweld a oes diddordeb i wneud hyn. Cysylltu Fron gyda cymunedau eraill i gyd. Cyngor Cymuned i gefnogi a rhoi llythyr o gefnogaeth i Bethan Jones, Parc a copi i Gymdeithas Porwyr.** **Gwelfor Rhosgadfan – angen holi a ydy hwn wedi ei drosglwyddo i CCG ynteu Cyngor Gwynedd sydd berchen.**
5.	**Materion Misol:** a) Meddygfa Rhostryfan Arwydd i fyny yn dweud fod y practis yn ystyried cau'r lle gan nodi y byddent yn gallu cynnig gwasanaeth gwell lawr yn Caernarfon. Hynod o gyfleus a hwylus, enwedig o ran parcio, methu mynd a nhw at y drws yn Caernarfon. Y ddadl ydy nad oes digon o staff i redeg y ddau. Fel Cyngor Cymuned angen gyrru llythyr o bryder. AMJ wedi gofyn am ffigyrau 6 mis o ran defnydd. Angen gyrru llythyr o wrthwynebiad. Llythyr wedi ei dderbyn gan Bryn Williams, angen i ni yrru llythyr hefyd yn gwrthwynebu. Oes modd cael deiseb? AMJ i roi llythyr o amgylch yn lleol. Ffurflen yn y feddygfa i bob roi eu sylwadau. Oes modd rhoi rhywbeth yn y papur. Angen annog bob i lenwi y ffurflen. Oes deddf yn nodi fod rhaid cael meddygfa yn rhosgadfan? b) Safle Gwe Map mwy manwl or plwy i roi ar y safle gwe Grantiau – ffurflen gais a pwy sydd wedi elwa Pwy i gysylltu Tudalen Facebook – oes modd cael tudalen lle allwn jest roi pethau fyny ein

	hunain Wordpress – oes bosib i ni roi pethau fyny ein hunain. Penmaenmawr yn ei ddefnyddio. c) Trydan Llanwnda Wedi mynd i ffwrdd 3:21am, AMJ wedi derbyn ymateb gan Dylan Herbert, contractwyr wedi eu penodi a wedi derbyn 90% consent gan tirfeddianwyr. Gwaith yn cael ei wneud yn Awst a Medi, neb wedi ffonio SP Networks, dim cofnod, angen cael y neges allan fod raid ffonio. Fault bore ma – cebl tanddaear wedi tripio 2 prif transformer. Angen gofyn wrth Ritchie ddod yn ol yma gyda diweddariad, dim llythyrau wedi mynd rownd y tai fel oedd wedi gaddo. AMJ wedi derbyn ymateb gan Ritchie. Mae nhw'n gweithio arno, jest mater o gael y cytundebau i gael mynd ar dir. Cael effaith ar fusensau ac ar unigolion, digwydd ers blwyddyn a hanner. Rhaid rhoi cyfle iddynt. Angen rhoi y rhif 105 i mewn, angen i bobl ffonio y rhif yma i adrodd ar unrhyw doriadau trydan. d) GVT – Angen llythyru Cymdeithas y Porwyr ar ran Clwb Mountain Rangers – eisiau gwybod pam fod y defaid yn parhau i ddod i'r pentref, mae'n peri problem i'r Clwb. Mae angen i Cyngor Gwynedd gael gwybod hefyd, er bod cattle grids, sut mae nhw'n dod i mewn? Gwiath ffensio ger y cattle grids angen ei wneud, cyngor sydd yn gyfrifol am hyn. Bethan am yrru gyrru sylwadau i Wyn yn Cyngor Gwynedd hefyd. Mater angen ei e) GVT – Bronallt, Rhosgadfan - Dwr yn casglu gan fynd o'r lon i lawr am y tai. Cyngor Gwynedd wedi addo gosod gwter tua 2 flynedd yn ol i sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Derbyn ymateb gan Ian Morgan, f) TE – Eithin ar llwybr cae haidd yn broblem, ar ochr Cyngor Llandwrog, angen rhoi cais i'r Cyngor Cymuned wneud y gwaith. Clerc wedi cysylltu gyda Clerc Llandwrog, mi fydd yn cael ei roi fel mater agenda nesaf ac byddent yn edrych mewn iddo. g) AMJ – Comisiwn Etholiadau yn ymgynghori ar ffiniau ar hyn o bryd. Mae 1500 o bobl yn ward Llanwnda ar hyn o bryd, AMJ wedi cynnig gadael ffin y ward fel ag y mae. Angen i'r Cyngor Cymuned yrru llythyr yn nodi eu bod yn fodlon fel ag y mae a ddim eisiau newid. Ymgynghoriad wedi dod i ben. h) AMJ - Tir Comin Rhosgadfan - AMJ yn edrych ar rai or materion ac am ddod a manylion i'r cyfarfod nesaf. Nodwyd mai Knight Frank ydy'r cwmni asiant tir comin yn Llundain. Mae achos yn Rhosgadfan le mae person wedi cymryd tir i wneud lle parcio. AMJ i sganio llythyr a'i yrru mlaen i MW. MW i yrru co-ordinates y darn Rhosgadfan at yr asiant tir i) JH – Cwyn am llwybr Cae Coch, Rhostryfan. Mae perchennog ty Tan y Fron wedi tynnu ffens a wedi rhoi cerrig lawr i wneud lle parcio ymhle mae'r llwybr i fod. Angen adrodd wrth Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd, mae dal bosib cael mynediad ond mae cerrig man o flaen y llwybr. Hefyd mae'r llwybr o'r sgwar heibio'r capel am Cae Coch wedi tyfu'n wyllt ac angen ei dorri.
6.	**Derbyn Adroddiadau** **Asesiad Risg – wedi cael pris gan Phil Johnson, Ymgynghoriaeth Gwynedd, £2.50 y garreg. Oes modd cael pris arall? Bydd raid ei wneud er mwyn sicrhau diogelwch. Cwmni Yswiriant, beth mae nhw'n ddeud. Holi Unllais**

	am gyngor ynglyn a pa mor aml dylid gwneud? **Oes angen nodi cymal yn y rheolau mynwent**
7.	**Is-bwyllgorau**
8.	**Materion Ariannol** a) Adroddiad Ariannol Cytunwyd ar y taliadau yn yr adroddiad ariannol, fel a ganlyn: Cytuno i dalu PAYE drwy BACS. Angen gofyn am doriad arall ar y fynwent. Pwyllgor y fynwent angen cyfarfod. Cytuno gyda'r taliadau. b) Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol Heb dderbyn pethau yn ol gan yr archwiliwr mewnol, BDO wedi gyrru llythyr rhybydd. Clerc yn eu cadw yn up to date. Maes Maen Coch – lawr am glanrhyd, hen ffingar ar y chwith. Shelter angen ei wneud
9.	**Materion Cynllunio** Rhosgadfan, tai uwch i fyny o Dreflan. Wedi gwrthwyneb yn y gorffenol, rhaid bod yn gyson a gwrthwyneb eto. Mae posib y bydd yn creu problem llifogydd. Angen gwrthwynebu. Os oedd cymaint o 'angen' pam nad adeilwdwyd o fewn y 5 mynedd.
10.	**Gohebiaeth a chylchgronnau** **Dyddiadau pwyllgorau ardal Unllais –** **LDP – Cyngor Gwynedd yn cynnal cyfarfod brys, argymell adeiladu 8000 o dai, ddim am helpu cymunedau gwledig, dim diogelwch ar gyfer diogelu'r iaith, dim by dyna i ddiogelu'r iaith, Horizon ynys mon – rhagweld y bydd angen tai ychwanegol. Chwip gweleidyddol i ddiogelu'r Cynllun. 15 o Gynghorwyr am fynd yn groes i argymhelliad Dyfrig. Fel mae'n sefyll ar hyn o bryd tydy o ddim am wneud dim i gymunedau gwledig, dim ond gwneyd y trefi yn fwy. Dim rheolaeth yno na diogelwch i bobl lleol.**
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** **JH – Llwybr Bryngwyn, lle wedi ail wneud y bont ger garreg lwyd, y gwter yn y lon, wedi ei lenwi gyda cerrig man, rhai wedi eu colli lawr y lon.** **RO – lon bryngwyn – anodd gyda giatiau i feicwyr, giatiau yn boen.** **AMJ – beth sydd yn digwydd gyda torri coed glanrhyd, cyfnod nythu, angen mynd ar ol lan Morgan.** **EJ – Wedi siarad gyda prif weithredwr rheilffordd, bont mynd draw tai glan rhug drosodd am tai bro gilbert, pont yn berryglus iawn, oes mod di ni gael prosiect i drio ail wneud y bont. Pobl yn cerdded o danddi. Nhw wedi rhoi'r hawl i ni. Angen cae prisiau i wneud. Cyngor Gwynedd wedi gwneud yr un sydd is lawr. Yr unig bont ar ol sydd ar y lein lle mae fferwyr yn defnyddio i groesi. Angen cael syniad o gostau, oes bosib ei cynnwys yn y cynllun uwch gwyrfai. Gofyn i Robat am bris. RO angen syniad o bris i roi yn y cais grant. Bosib sa rais cau'r lein tra'n gwneud y gwaith.** **EE – Lon beics, tu o li Goat, darn bach cyntaf, coed wedi torri mor uchel, mae hi'n dywyll ac yn llithrig yno, angen torri'r coed, gwneud yn dywyll.** **RO - tyllau yn y lon o saron i lawr a wrth junction bwrdd dwr.** **Bron Seiont – oes modd edrych ar y tyllau yn fanno.**

	Gwrych dinas – angen ei dorri. **Dyddiad: 20 Medi 2017** **Lleoliad: Ysgol Rhosgadfan**